# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) De-orllewin Cymru
# Ymgynghoriad Cyhoeddus Haf 2024 – Crynodeb o'r Canfyddiadau

## Cyflwyniad i'r CTRh newydd

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) newydd yn cael ei baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, corff newydd ar gyfer llywodraeth leol yn y rhanbarth. Bydd yn nodi sut bydd polisi cenedlaethol, fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn cael ei gyflawni ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe dros y cyfnod 2025 – 2030. Mae'r CTRh newydd yng nghamau cynnar ei ddatblygiad ond ar ôl ei fabwysiadu bydd yn disodli'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd presennol.

## Cefndir i'r ymgynghoriad

Yn ystod haf 2024, cynhaliwyd cam cynnar o'r ymgynghoriad cyhoeddus i:

- Rhoi gwybod i bobl fod CTRh newydd yn cael ei ddatblygu.
- Rhoi cyfle i bobl gynnig sylwadau ar y problemau trafnidiaeth y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn y rhanbarth ac ar eu blaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod y CTRh newydd yn mynd i'r afael â'r materion lle mae'r brys mwyaf.

Ymgynghoriad anffurfiol, anstatudol oedd hwn, yn canolbwyntio ar broblemau a materion a nodwyd yn y gwaith paratoi ar gyfer y CTRh (a elwir yn Achos dros Newid[1]). Casglwyd adborth drwy arolwg ar-lein. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros chwe wythnos o ddydd Llun 15 Gorffennaf tan ddydd Llun 26 Awst 2024.

## Ymateb cyffredinol

818 wedi cwblhau arolygon ar-lein, yn ogystal â llythyrau a negeseuon e-bost.

282 ymateb i'r arolwg o Abertawe

137 ymateb i'r arolwg o Sir Benfro

125 ymateb i'r arolwg o Sir Gâr

226 ymateb i'r arolwg o Gastell-nedd Port Talbot

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran 40-74 (71%). Roedd 18% o'r ymatebwyr o dan 39 oed. Ar gyfer camau nesaf yr ymgynghoriad, bydd yn bwysig ystyried sut i annog ymgysylltu ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a gyda phobl iau.

## Adborth ar broblemau a materion

Roedd yr arolwg ar-lein yn gofyn i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â rhestr o broblemau a nodwyd yn flaenorol a materion a oedd yn deillio o'r Achos dros Newid. Yn gyffredinol, roedd y canlyniadau'n dangos lefel uchel o gytundeb â'r problemau a'r materion a nodwyd, gan awgrymu bod gwaith sylfaenol y CTRh wedi nodi'r materion allweddol yn gywir.

Cytunai 95% bod diffyg dewisiadau ymarferol yn lle'r car preifat mewn ardaloedd gwledig yn fater pwysig.

Teimlai 92% bod gwneud siwrneiau sy'n golygu mwy nag un bws, neu fws a thrên, yn anodd.

Cytunai 91% bod diffyg gwasanaeth rheilffyrdd mewn rhai ardaloedd yn fater allweddol.

Mynegodd 88% bryder bod teithiau bws yn cymryd mwy o amser na char neu nad yw llwybrau bysiau yn mynd i ble mae pobl am iddynt fynd.

---

[1] Mae'r Achos dros Newid ar gael yma: http://www.cjcsouthwest.wales/media/19454/achos-dros-newid-accessible-version-cymru.pdf

Nododd 87% nad yw cerdded a beicio yn ymarferol mewn rhai ardaloedd neu i rai pobl.

Teimlai 86% bod gwasanaethau bws yn anaml neu'n annibynadwy.

Teimlai 85% bod angen gwneud mwy o waith cynnal a chadw ar ffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio


Teimlai 85% ei bod yn bwysig bod datblygiadau newydd yn cael eu cefnogi gan gysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd dda ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy.

Mae'r canrannau'n dangos nifer y bobl a oedd yn cytuno'n gryf ac yn cytuno â datganiadau yn yr arolwg ar-lein. Y prif faterion yn unig a adlewyrchir uchod, felly dim ond rhan o'r set ddata ydyw.

Yn yr adran sylwadau, roedd problemau a materion ychwanegol allweddol a godwyd gan ymatebwyr hefyd yn cynnwys pryderon ynghylch amserlennu gwasanaethau (yn enwedig yr angen am fwy o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar benwythnosau a gyda'r nos); cost uchel trafnidiaeth gyhoeddus; a chymhlethdod y tocynnau.

**Adborth ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

Roedd yr arolwg ar-lein yn gofyn i ymatebwyr nodi eu tair prif flaenoriaeth trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol o restr o naw awgrym. Roedd y blaenoriaethau'n adleisio'r problemau a'r materion a nodwyd. Mae'r graff yn dangos canran yr ymatebwyr a oedd wedi cynnwys pob blaenoriaeth yn eu tair uchaf. Mesurau i helpu i wneud bysiau a threnau yn ddewis mwy ymarferol yn lle'r car oedd y flaenoriaeth a nodwyd amlaf.




Yn yr adran sylwadau, y blaenoriaethau pwysig eraill a amlygwyd gan ymatebwyr oedd prisiau rhatach, gwell trefn docynnau, gwella ansawdd gwasanaethau trafnidiaeth yn gyffredinol a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus newydd/gwell/mwy aml. Er bod ymatebwyr yn cefnogi gwelliannau i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, nododd llawer hefyd y dylai'r CTRh gydnabod bod y car yn dal yn bwysig i lawer o bobl a llawer o deithiau.

**Y camau nesaf**

Bydd yr ymatebion i'r arolwg, y llythyrau a'r negeseuon e-bost yn cael eu defnyddio i helpu i lunio'r polisïau drafft ar gyfer y CTRh newydd. Bydd ymgynghoriad statudol llawn arall yn 2025 ar ddogfen CTRh ddrafft (gan gynnwys polisïau drafft) a Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (rhestr o gynlluniau).